**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

20 Tachwedd 2024

Annwyl Rebecca,

**Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

Bu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg ("y Bil") yn ei gyfarfodydd ar 16 Hydref a 14 Tachwedd. Yn dilyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar 4 Tachwedd, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn am ragor o wybodaeth am sawl mater pwysig wrth iddo baratoi ei adroddiad.

Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau a ganlyn:

- A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon yn ymwneud â datblygiad y Bil, yn sgil ei phryderon yn ymwneud â chynigion rheoleiddio Llywodraeth flaenorol y DU?
- Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i'ch galluogi i ddod i'r farn y dylai'r Bil fod 'yn gadarnhaol i fusnesau', ac a ellid rhannu'r dadansoddiad hwn â'r Pwyllgor?[1]
- Nodwch pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gael barn busnesau, cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr ar y Bil.
- A yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am farn aelodau ei Grŵp Cynghori ar Fasnach ac os felly, beth oedd eu barn?

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 83

- Nodwch pa rai o reoliadau'r UE y gallai'r Bil ymestyn iddynt. A oes unrhyw rai a fyddai, ym marn Llywodraeth Cymru, a fyddai'n arbennig o fuddiol i allforwyr Cymru? At hynny, cadarnhewch pa sgyrsiau sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

- Pe bai'r Bil yn arwain at gydnabyddiaeth y DU o safonau'r UE, nodwch sut y gallai hynny ryngweithio â chytundebau masnach eraill ar ôl Brexit. Er enghraifft, a allai busnesau Cymru gael eu tandorri drwy fewnforion Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (neu *CPTPP*) sy'n cynhyrchu i safon is na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer marchnad yr UE?

- A ellid defnyddio'r Bil i ddiogelu diwydiannau domestig y DU rhag ymchwyddiadau mewnforio nwyddau a wneir i safon is, na allant fynd i mewn i farchnad yr UE (h.y. dympio)?

- A allai'r Bil gael effeithiau gwahaniaethol ar draws diwydiannau Cymru, ac os felly, ym mha fodd?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 9 Rhagfyr 2024 fan bellaf, fel y gallwn ei ystyried wrth ddrafftio ein hadroddiad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Copi i: Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad